



EIP WALES

Cydweithio er ffyniant gwledig  
Collaborating for rural success




menter  
a busnes

# Bwydo Glaswellt Trwy'r Dail

A yw bwyd glaswellt (drwy'r dail), sy'n seiliedig ar asid wrea a hwmig, yn fwy effeithlon na gwrteithiau nitrogen safonol ar ffurf pelenni?


Heb os nac oni bai, mae dechrau ail flwyddyn y prosiect EIP yn edrych ar fwydo'r glaswellt drwy'r dail wedi bod yn gymysg o safbwynt ymdrin â'r gaeaf gwlyb hyd at ddechrau Mawrth, ac yna'r cyfnod o dywydd sych a arweiniodd at sychder ar ddechrau'r tymor tyfu.



Roedd y ddau safle a gafodd y cyfanswm deunydd sych (DM) uchaf yn 2019 (safle 1 a 2) 0.9 tDM/ha a 0.3 tDM/ha y tu ôl i ffigyrau twf glaswellt ar gyfer yr un cyfnod eleni. Cafwyd perfformiad ychydig yn well ar safle 3 a 4, sy'n safleoedd mwy heriol ar dir uwch gyda phriddoedd trymach, gyda'r ddau ar 0.6 tDM/ha, sy'n gynydd ar yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

Mae'r lleiniau sy'n cael eu bwydo drwy'r dail wedi ymateb yn dda gyda thwf da ar ddechrau'r gwanwyn, gan adlewyrchu data a gofnodwyd gennym yn ystod gwanwyn 2019. Mae'r data yn dangos bod y lleiniau a oedd yn cael eu bwydo drwy'r dail wedi tyfu i'r un graddau neu fwy na'r lleiniau confensiynol ar 2 o'r 4 safle, gyda'r lleiniau heb wrtaith yn tyfu'n arafach ar bob safle, yn unol â'r disgwyl. Gan fod bwyd dail yn cael ei roi yn uniongyrchol ar y glaswellt, nid oes angen dibynnu ar law i'w roi ar waith, gan olygu bod modd iddo gynnal twf glaswellt yn well na gwrtaith confensiynol mewn tywydd sych.

Erbyn diwedd mis Ebrill ar y lleiniau pori, roedd y lleiniau confensiynol wedi derbyn 61 kg/ha o nitrogen, ac roedd y lleiniau sy'n cael eu bwydo drwy'r dail wedi derbyn 18 kg/ha o nitrogen. Ar y safle silwair, roedd y lleiniau confensiynol wedi derbyn 315 kg/ha o gynnyrch o'i gymharu â'r 60 kg/ha o gynnyrch a roddwyd ar y llain a oedd yn cael ei fwydo drwy'r dail cyn cael ei dorri yn ystod y 3ydd wythnos ym mis Ebrill.



Erbyn diwedd mis Mehefin, mae'r lleiniau confensiynol wedi derbyn cyfanswm o 80 kgN/ha - 120 kgN/ha, ac mae'r lleiniau sy'n cael eu bwydo drwy'r dail wedi derbyn 27 kgN/ha - 45 kgN/ha. Mae'n bwysig cofio bod y lleiniau sy'n cael eu bwydo drwy'r dail ar gyfartaledd wedi derbyn 84 kg/ha yn llai o nitrogen na'r lleiniau confensiynol ond wedi parhau i gynhyrchu cyfanswm tebyg iawn o laswellt. Drwy gymharu'r samplau porfa ffres a'r darlleniadau o'r mesurydd plât o'r safle silwair hyd yma, mae'n ymddangos bod tueddiad cyson fod y llain sy'n cael ei fwydo drwy'r dail yn cynnwys 4.5% - 5% yn fwy o ddeunydd sych na'r llain confensiynol. Byddai hyn, yn ei dro, yn golygu bod angen i ni gynyddu'r data deunydd sych ar gyfer y lleiniau sy'n derbyn bwyd drwy'r dail o 4.5%-5%, a byddai hynny'n cau'r bwll rhwng y lleiniau sy'n derbyn bwyd drwy'r dail a'r lleiniau confensiynol. Byddwn yn gwybod mwy erbyn diwedd y tymor ynghylch dilysrwydd y duedd hon.



Un o'r safleoedd treialu lle defnyddiwyd ffensys trydan i wahanu un cae mawr yn 3 llain.